Datganiad Cwricwlwm Ysgol Gymraeg Gwynllyw 2023

Diffiniad Cwricwlwm

Diffinnir gwricwlwm ein hysgol fel popeth mae ein dysgwyr yn ei brofi ar drywydd y pedwar diben. Mae'n fwy na'r hyn rydyn ni'n ei addysgu yn unig. Mae hefyd yn ymwneud â sut rydyn ni'n ei addysgu ac, yn allweddol, pam ydyn ni'n ei addysgu.

Mae Ysgol Gymraeg Gwynllyw wedi croesawu egwyddorion Cwricwlwm i Gymru yn llawn yn ei phrosesau ar gyfer cynllunio ein cwricwlwm newydd ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 7 ac 8 o fis Medi 2023.

Rydym yn ymfalchïo yn ansawdd y profiadau dysgu a ddarperir yn Ysgol Gymraeg Gwynllyw a sut mae hyn yn cyd-fynd â'r Pedwar Diben. Mae ein gweledigaeth cwricwlwm wedi'i datblygu dros amser, wedi'i hategu gan ymholi yn yr ystafell ddosbarth, ymgysylltu â rhanddeiliaid a llais y dysgwr. Mae'n adlewyrchu ein diwylliant fel cymuned ysgol gynhwysol sy'n cynnig ehangder o brofiadau dysgu cyfoethog i herio ac ysbrydoli dysgwyr ac yn cofleidio egwyddorion Cwricwlwm i Gymru.

Amcanion y Cwricwlwm

Er mwyn gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer ein dysgwyr, bydd ein cwricwlwm yn:

- galluogi ein dysgwyr i wireddu'r pedwar diben a'u harfogi ar gyfer dysgu parhaus, gwaith a bywyd; meithrin disgwyliadau uchel ac yn galluogi pob dysgwr i gyflawni ei lawn botensial. Caiff y pedwar diben eu hymgorffori o fewn y 5 gwerth Gwynllyw megis:
    - Cyflawni
    - Cymry
    - Cynaliadwy
    - Cyfranogi
    - Cwrteisi
- cynnig addysg eang a chytbwys, sy'n galluogi ein dysgwyr i greu cysylltiadau rhwng y gwahanol feysydd dysgu a phrofiad (Meysydd), a chymhwyso'u dysgu mewn sefyllfaoedd newydd ac mewn perthynas â materion mwy cymhleth
- cefnogi cynnydd ar hyd continwwm dysgu, a sut rydym yn gweithio gydag eraill i sicrhau cysondeb yn y cyfnodau pontio ar hyd continwwm 3 i 16
- cefnogi iechyd a lles eich dysgwyr, gan gynnwys eu hiechyd meddwl a'u lles
- cefnogi datblygiad gwybodaeth ein dysgwyr sy'n sylfaen i fod yn ddinesyddion gwybodus
- cydnabod hunaniaeth ein dysgwyr, eu hiaith/ieithoedd, eu gallu a'u cefndir, a'r cymorth gwahanol y gall fod ei angen arnyn nhw o ystyried eu hamgylchiadau penodol
- adlewyrchu amrywiaeth safbwyntiau, gwerthoedd a hunaniaethau sy'n llunio ardael leol yr ysgol a Chymru, a meithrin dealltwriaeth o'r byd ehangach
- galluogi ein dysgwyr i wneud synnwyr o'r profiad o dyfu'n hŷn yn y Gymru gyfoes ac o faterion a fydd yn bwysig yn y dyfodol, gan gynnwys lles, datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth;
- cefnogi ein dysgwyr i ymgysylltu'n feirniadol ag ystod o wybodaeth ac asesu ei gwerth a pha mor ddilys ydyw
- galluogi ein dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o'u hawliau a hawliau eraill
- cael eu llunio ar y cyd â'n rhanddeiliaid (dysgwyr, teuluoedd, y gymuned ehangach, ein cydweithwyr clwstwr.

Strwythur a chynllun Cwricwlwm

Y pedwar diben

Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:
Cynllunnir ein cwricwlwm er mwyn cefnogi'r holl ddysgwyr i ddatblygu fel:

- gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau
- datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau
- ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau
- gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg
- gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maen nhw'n dysgu amdanyn nhw
- gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau
- deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol
- defnyddio technolegau digidol yn greadigol i rhannu gwybodaeth, dod o hyd iddi a'i dadansoddi
- ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol

ac sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau

gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:

- cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynnyrch
- meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau
- adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnyn nhw
- mentro'n bwyllog
- arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol
- mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau
- rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa

ac sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a Gwaith

ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:

- canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn
- trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
- deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol
- parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol
- dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaladwyedd y blaned

ac sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd

unigolion iach, hyderus sydd:

- â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol ac egwyddorol
- yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi
- yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer corff ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd pob dydd

- yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach
- yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol
- yn gwneud penderfyniadau pwyllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg
- â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau
- yn ffurfio cydberthnasau cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd
- yn wynebu heriau ac yn eu goresgyn
- â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallan nhw ac sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

ac sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Y pedwar diben yw'r man cychwyn ar gyfer pob penderfyniad ynghylch dylunio'r cwricwlwm mae ein cwricwlwm wedi'i gynllunio mewn ffordd sy'n cefnogi ein dysgwyr i wneud cynnydd tuag atynt.

Sgiliau hanfodol

Mae sgiliau hanfodol yn sail i'r pedwar diben a dylid eu datblygu o fewn ystod eang o ddysgu ac addysgu o fewn ein cwricwlwm.

Creadigrwydd ac arloesi
Bydd ein cwricwlwm yn cael ei gynllunio mewn ffordd sy'n datblygu creadigrwydd ac arloesi mewn ein dysgwyr drwy roi lle a chyfleoedd iddyn nhw sydd yn eu cefnogi i fod yn:

- chwilfrydig ac ymholgar ac i greu llawer o syniadau;
- cysylltu gwahanol brofiadau, gwybodaeth a sgiliau a gweld, archwilio a chyfiawnhau datrysiadau amgen;
- gallu adnabod cyfleoedd a chyfleu eu strategaethau.

Dylai hyn gefnogi dysgwyr i greu gwerth o wahanol fathau.

Meddwl yn feirniadol a datrys problemau
Bydd ein cwricwlwm yn cael ei gynllunio mewn ffordd sydd yn datblygu dysgwyr i feddwl yn feirniadol a datrys problemau drwy roi lle a chyfleodd iddyn nhw sydd yn eu cefnogi i:

- ofyn cwestiynau ystyrlon ac i werthuso gwybodaeth, tystiolaeth a sefyllfaoedd;
- dadansoddi a chyfiawnhau datrysiadau posibl, gan adnabod materion a phroblemau posibl;
- dod yn wrthrychol wrth iddyn nhw wneud penderfyniadau, gan adnabod a datblygu dadleuon;
- gallu cynnig datrysiadau sy'n creu gwerth o wahanol fathau.

Cynllunio a threfnu

Bydd ein cwricwlwm yn cael ei gynllunio mewn ffordd sydd yn datblygu cynllunio a threfnu dysgwyr drwy roi lle a chyfleodd iddyn nhw sydd yn eu cefnogi:

- gosod nodau, gwneud penderfyniadau a monitor canlyniadau interim (lle bod hynny'n briodol o ran datblygiad);

- myfyrio ac addasu, yn ogystal â rheoli amser, pobl ac adnoddau.
- Gwirio cywirdeb a chreu gwerth o wahanol fathau.
- feithrin gwerthfawrogiad o ddatblygu cynaliadwy a'r heriau sy'n wynebu dynoliaeth
- meithrin ymwybyddiaeth o ddatblygiadau technolegol sy'n dod i'r amlwg
- cael eu cefnogi a'u herio er mwyn iddyn nhw fod yn barod i fodloni'r galwadau sy'n gysylltiedig â gweithio mewn sefyllfaoedd ansicr yn hyderus, wrth i gyd-destunau lleol, cenedlaethol a byd-eang arwain at heriau newydd a chyfleoedd i lwyddo
- meithrin eu gwydnwch a datblygu strategaethau a fydd yn eu helpu i reoli eu lles. Dylen nhw fod yn cael profiadau lle y gallan nhw ymateb yn gadarnhaol yn wyneb heriau, ansicrwydd neu fethiant
- dysgu i weithio'n effeithiol gydag eraill, gan werthfawrogi'r gwahanol gyfraniadau y maen nhw eu hunain ac eraill yn eu gwneud. Dylen nhw hefyd ddechrau cydnabod cyfyngiadau eu gwaith eu hunain a chyfyngiadau pobl eraill wrth iddyn nhw feithrin dealltwriaeth o'r ffordd y mae gwahanol bobl yn chwarae gwahanol rolau mewn tîm.

Gweledigaeth ar gyfer datblygu dysgwyr Ysgol Gymraeg Gwynllyw

Rhinweddau Cyffredinol Dysgwr Gwynllyw

Cymry
Cwrteisi
Cydweithio
Cynaliadwy
Cyflawni

Mae dysgwyr Ysgol Gymraeg Gwynllyw yn

- yn Gymry balch sy'n ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg, eu Cymreictod, cymdeithas, hunaniaeth a chynefin.
- ddinasyddion cwrtais sy'n parchu eu hunain ac eraill trwy gynnwys pawb a thrin pawb yn gydradd a pharchu lles ei gilydd.
- cydweithio gydag holl aelodau ein cymuned a'r gymuned ehangach.
- dangos agwedd, ymddygiad ac ymdrech cadarnhaol ac yn barod i ddysgu.
- cynnal yr amgylchedd a'i gilydd er mwyn meithrin yr ymdeimlad o berthyn a theulu i sicrhau dyfodol cynaliadwy.
- uchelgeisiol ac yn cyflawni eu potensial trwy ddyfalbarhau a dangos dycnwch a chymhelliant.

Meysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh)

Bydd ein cwricwlwm yn cael ei gynllunio mewn ffordd sydd yn sicrhau dysgu ac addysgu sy'n cwmpasu'r holl Feysydd Dysgu a Phrofiad (Meysydd)

- Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg

Mae gan bob maes statws o fewn ein cwricwlwm.

Mae MDaPh wedi cydweithio i gynllunio'r cwricwlwm hyd yma. Yn ogystal, mae cydweithio yn digwydd rhwng pynciau tu hwnt i MDaPh i sicrhau'r profiadau gorau i ein dysgwyr.

Rhinweddau dysgwyr Ysgol Gymraeg Gwynllyw ar ddiwedd CC4

Ieithoedd a Chyfathrebu

Mae dysgwr yn gallu dysgu i ryngweithio, datblygu syniadau a mynegi barn mewn aml-ieithoedd. Gall ddefnyddio iaith greadigol a dangos empathi a bydd wedi profi iaith mewn amrywiaeth o ffurfiau a genres. Mae'n fwy o ddehonglwr beirniadol o beth mae'n darllen, clywed a gweld. Mae dysgwr yn gallu defnyddio sgiliau cyfathrebu clir ac effeithiol drwy iaith lafar ac ysgrifenedig gan ddeall y gwahaniaeth rhwng iaith ffurfiol ac anffurfiol. Mae dysgwr yn deall sut i strwythuro brawddegau a defnyddio geirfa briodol er mwyn ysgrifennu'n estynedig i bwrpas gan ddeall pwysigrwydd prawf-ddarllen i ysgrifennu'n gywir. Yn yr ieithoedd perthnasol, mae dysgwr yn dangos dealltwriaeth aeddfetach o grefft awdur a datblygu aeddfedrwydd yn ei ysgrifennu ei hunan yn ogystal â dod i werthfawrogi llenyddiaeth a darllen gan ddangos cydymdeimlad o brofiadau, barn a diwylliannau gwahanol. Mae'n deall y cysylltiad rhwng hunaniaeth, diwylliant ac iaith.

Mathemateg a rhifedd

Bydd dysgwr Blwyddyn 9 wedi datblygu dealltwriaeth o'r cysyniadau a gyflwynwyd iddynt eisoes ar draws y meysydd rhif, algebra, geometreg ac ystadegau. Bydd yn ymwybodol o'r cysylltiad rhwng meysydd megis ffracsiynau, canrannau a degolion, ac yn gallu defnyddio'r cysylltiad rhwng y cysyniadau hyn. Mae'n deall cysyniadau cysylltiedig ym maes geometreg, megis arwynebedd a chyfaint, a gall nodi enghreifftiau ac anenghreifftiau o'r cysyniadau.

Bydd dysgwr Blwyddyn 9 yn galw i gof ffeithiau rhif yn hylaw, yn enwedig tablau lluosi a mathau o rif. Bydd yn rhugl wrth nodi ffeithiau sylfaenol, megis onglau a fformiwlâu geometreg, ac wrth gofio ffeithiau cânt eu cymhwyso i ymdrin â phroblemau aml-gam yn hyderus.

Bydd dysgwr yn cyfathrebu'n effeithiol trwy fathemateg, gyda geirfa fathemategol gywir yn gadarn ganddynt. Bydd yn hyderus wrth drafod cynrychioliadau diriaethol ac yn dod yn fwyfwy hyderus wrth drafod cynrychioliadau haniaethol. Bydd dysgwr yn datblygu'r soffistigeiddrwydd wrth ddefnyddio symbolau i gyfathrebu.

Bydd dysgwr yn gallu rhesymu dros eu gwaith a'u penderfyniadau yn gynyddol soffistigedig. Bydd esboniadau cynhwysfawr ar lafar dros eu penderfyniadau a chyfiawnhad syml dros eu dewisiadau. Defnyddir cynrychioliadau diriaethol mewn esboniadau ac wrth adnabod strwythur mathemategol problemau. Bydd y dysgwr yn gallu dyfeisio dull i ymdrin â phroblemau sy'n gynyddol gymhleth ac yn gallu myfyrio ar lwyddiant eu strategaethau. Trwy hyn bydd y dysgwr yn uchelgeisiol a galluog.

Ym maes rhif, bydd y dysgwr yn cyfrifo â rhaniadau o rif yn fedrus ac yn medru talgrynnu i un ffigur ystyrlon er mwyn amcangyfrif cyfrifiadau. Bydd y dysgwr yn hyderus wrth ymdrin â rhifau negatif ac wrth drin cilyddion. Gall gyfrifo newid canrannol a chymhwyso'r sgil hwn wrth drafod arian cyfred a chysylltiadau eraill ac wrth drafod arian a materion cyllidol ceir cyfle i fod yn unigolyn iach a hyderus o fewn cymdeithas sy'n ariannol-lythrennol.

Ym maes algebra, bydd y dysgwr yn trafod dilyniannau o rif, gan greu rheolau priodol a rhesymu wrth barhau dilyniannau o rifau a siapiau. Bydd yn datblygu'r ddealltwriaeth o gysyniad hafaliad trwy ddatrys hafaliadau lle mae newidynnau ar y ddwy ochr. Bydd yn dwyn i gof dull priodol o ehangu cromfachau sengl ac yn rhugl wrth luosi newidynnau a chasglu termau tebyg. Bydd rhuglder yn ei waith wrth amnewid rhifau negatif i fynegiadau llinol.

Ym mae geometreg, datblyga ddealltwriaeth o gysyniad perimedr ac arwynebedd trwy ymdrin â chylchoedd. Bydd y dysgwr yn trawsffurfio siapiau yn hyderus ac yn rhesymu'n gynyddol soffistigedig i gyfiawnhau gwerthoedd onglau coll, gan gynnwys lle bo llinellau paralel.

Wrth drafod ystadegau, bydd y dysgwr yn dehongli siartiau gynyddol gymhleth, megis diagramau gwasgariad. Wrth ddefnyddio mesuriadau canolduedd, a hynny gyda grwpiau, a dadansoddi'n gritigol, ceir cyfle i fod yn ddinesydd moesol a gwybodus.

Gwyddoniaeth a thechnoleg

Mae Dysgwr Gwynllyw yn ddysgwr sydd yn gallu meddu ar fedrau gwahanol i gynllunio a chynnal archwiliadau. Mae cyfuniad o Wybodaeth, Dealltwriaeth, Sgiliau Pynciol a Medrau yn cael eu defnyddio i greu dysgwr cyflawn.

Mae gan Dysgwr Gwynllyw ddealltwriaeth gysyniadol o wybodaeth hanfodol Cam Cynnydd Pedwar. I ddatblygu'r dallwriaeth a'r wybodaeth hon, mae Dysgwr Gwynllyw yn datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd Cynllunio, Casglu, Dadansoddi a Gwerthuso, mewn amrywiaeth o gyd-destynnau priodol. Defnyddir y cylch dylunio i gynnal ymchwiliadau ac ymholiadau gan ddefnyddio medrau pellach. Trwy hyn, mae Dysgwr Gwynllyw yn gallu datblygu medrau pellach ar y cyd gyda'r Sgiliau Pynciol. Mae Dysgwr Gwynllyw yn medru cysylltu gwybodaeth bynciol gyda'r gymdeithas leol, yn ogystal a Chymru a'r byd ehangach.

Mae Dysgwr Gwynllyw yn ddysgwr sydd yn gallu datrys problemau yn chwilfrydig, rhesymegol a chreadigol ac yn agored i ddysgu trwy fethiant. Gall Dysgwr Gwynllyw gyfathrebu syniadau dadansoddol a gwerthusol, a datrys problemau yn addas. Trwy feddwl yn agored, ac yn rhydd o ragfarn, mae Dysgwr Gwynllyw yn ddysgwr amheugar sydd yn barod i'r dyfodol. Mae Dysgwr Gwynllyw yn medru archwilio i nifer o bynciau gwahanol yn ddiogel, gan ddilyn cyfarwyddiadau yn glir.

Dyniaethau

Mae dysgwr ar ddiwedd Cam Cynnydd 4 yn ddinesydd egwyddorol o'u cynefin yng Nghymru a'r byd yn ehangach. Mae'n gallu esbonio a dadansoddi pam fod anghyfiawnder ac anghydraddoldeb yn wynebu pobl a'r rhannau y mae unigolion a llywodraethau yn ei chwarae wrth sicrhau cydraddoldeb. Gall drafod a herio safbwyntiau'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a dadansoddi ac esbonio effaith hynny ar bobl, eu hawliau a'r amgylchedd. Gan ddefnyddio ystod o ddulliau mae'r dysgwr yn gallu dadansoddi defnyddioldeb, dibynadwyedd a dilysrwydd ystod o dystiolaeth. O ganlyniad gall ddisgrifio patrymau ac esbonio cydberthnasau ar draws data a ffynonellau. Gan ddefnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth gall ddadansoddi ac esbonio'r modd y mae gwahanol gymunedau a chymdeithasau megis amrywiaethau ethnig, wedi newid dros gyfnod o amser, ynghyd a sut a pham y maent wedi cael eu dehongli'n wahanol. Ymhellach, gall ddeall ac esbonio yr ystod o ffactorau sy'n effeithio'r rhyngberthnasau rhwng pobl a phrosesau ffisegol dros gyfnod o amser.

Iechyd a lles

Erbyn diwedd CA3, o ganlyniad i gyfranogiad rheolaidd mae'r dysgwr yn gallu deall sut mae'r cydberthynas rhwng ffitrwydd a diet. Mae'r dysgwr yn dangos dealltwriaeth pwysigrwydd o fwyta'n iach nawr ac i'r dyfodol gan gyfeirio at wahanol grwpiau o fwyd sydd yn effeithio'n gadarnhaol ar les corfforol, emosiynol a chymdeithasol.

Mae'r dysgwr yn gallu cydnabod cryfderau a gwendidau er mwyn gosod nodau priodol er mwyn datblygu fy hiechyd a lles personol.

Trwy profiadau gwahanol mae'r dysgwr yn gallu rheoli emosiynau mewn sefyllfaoedd creadigol a chystadleuol. Mae'r dysgwr yn gallu perfformio amryw o sgiliau manwl a chywir o fewn sefyllfaoedd ymarferol gan ddefnyddio'r technegau a thactegau perthnasol. Mae'r dysgwr yn gwneud penderfyniadau call a gweithio'n ddiogel yn annibynnol ac mewn grwp.

Mae'r dysgwr yn gallu deall a gwerthfawrogi sut mae'r ymdeimlad o berthyn, cyswllt a chynnal cydberthynas a ddaw o berthnasau iach yn cael effaith bwerus ar iechyd a lles. Mae'r dysgwr yn gallu deall a bod yn ymwybodol o'i theimladau a'i hemosiynau sy'n rhoi'r sylfaen o sut i ddatblygu empathi a gwytnwch / dycnwch / dyfalbarhad.

Mae'r dysgwr yn gallu datblygu strategaethau ymdopi gyda straen ac yn llwyddo i addasu'n llwyddiannus i brofiadau bywyd anodd trwy arddangos hyblygrwydd meddyliol, emosiynol ac ymddygiadol.

Fe fydd profiadau cadarnhaol y dysgwr yn sicrhau cyfranogiad gydol oes a fydd yn elwa eu lles corfforol, seicolegol a chymdeithasol.

Celfyddydau mynegiannol

O ganlyniad i amrywiaeth o brofiadau tu fewn a thu hwnt i'r dosbdarth, mae dysgwr yn gallu archwilio er mwyn datblygu dealltwriaeth o ystod eang o ddulliau o gyflwyno syniadau, mynegi ei hunan trwy'r celfyddydau a dangos reolaeth dechnegol. Mae dysgwr yn deall prosesau ac yn gallu dewis deunyddiau, offer a thechnegau priodol er mwyn cyfleu syniadau i gael effaith ar gynulleidfa wrth ystyried gwaith ei hun ac eraill. Mae dysgwr yn hyderus ac yn dangos gwytnwch wrth berfformio o flaen eraill, ymateb i waith eraill a myfyrio ar waith ei hun ac eraill. Mae'n gallu gwneud cysylltiadau rhwng gwaith ei hun ac eraill wrth ystyried arddulliau a chyfnodau. Mae'n yn gallu myfyrio ar sut i greu effaith a chyfleu emosiwn. Mae dysgwr yn cael ei hysbrydoli i ddefnyddio profiadau a dealltwriaeth i gynllunio gwaith creadigol dychmygus er mwyn cyfleu neges/cysyniad at wahanol ddibenion. Maent yn cynhyrchu a chyflwyno eu gwaith trwy ddangos ymwybyddiaeth o fwriad i'r gynulleidfa yn ddeallus a hyderus. Mae dysgwr yn gallu gwerthuso a chydnabod cyfraniadau'r celfyddydau mynegiannol yn yr ardal leol ac yng Nghymru.

Datganiadau o’r hyn sy’n bwysig

Mae ein cwricwlwm ysgol yn darparu cyfleoedd i’n dysgwyr ymgysylltu â’r cysyniadau allweddol o fewn yr holl elfennau a’u dealltwriaeth ohonynt a datblygu eu dealltwriaeth o’r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig.

Y Celfyddydau Mynegiannol YHSB1 Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.	**Y Celfyddydau Mynegiannol YHSB2** Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.	**Y Celfyddydau Mynegiannol YHSB3** Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.	**Y Dyniaethau YHSB1** Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
Y Dyniaethau YHSB2 Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.	**Y Dyniaethau YHSB3** Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.	**Y Dyniaethau YHSB4** Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.	**Y Dyniaethau YHSB5** Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.
Iechyd a Lles YHSB1 Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.	**Iechyd a Lles YHSB2** Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.	**Iechyd a Lles YHSB3** Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.	**Iechyd a Lles YHSB4** Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.
Iechyd a Lles YHSB5 Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.	**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu YHSB1** Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.	**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu YHSB2** Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.	**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu YHSB3** Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.
Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu YHSB4 Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.	**Mathemateg a Rhifedd YHSB1** Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.	**Mathemateg a Rhifedd YHSB2** Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.	**Mathemateg a Rhifedd YHSB3** Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.
Mathemateg a Rhifedd YHSB4 Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.	**Gwyddoniaeth a Thechnoleg YHSB1** Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.	**Gwyddoniaeth a Thechnoleg YHSB2** Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.	**Gwyddoniaeth a Thechnoleg YHSB3** Mae'r byd o'n cYHSBpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.
Gwyddoniaeth a Thechnoleg YHSB4 Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.	**Gwyddoniaeth a Thechnoleg YHSB5** Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.	**Gwyddoniaeth a Thechnoleg YHSB6** Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol.	

Mae ein cwricwlwm yn defnyddio’r datganiadau o’r hyn sy’n bwysig i lywio’r broses o ddatblygu cynnwys cwricwlwm. Yn benodol fe’u defnyddir i wneud y canlynol:

- dewis ystod o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau sy’n galluogi ein dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o’r ‘syniadau mawrion’ a’r egwyddorion allweddol o fewn pob datganiad
- cefnogi cynnydd ein dysgwyr o fewn y ‘syniadau mawrion’ ac egwyddorion allweddol a’u gallu i fedru datblygu dealltwriaeth a defnydd cynyddol soffistigedig o’r datganiadau o’r hyn sy’n bwysig
- galluogi dysgwyr i archwilio testunau a gweithgareddau drwy safbwyntiau gwahanol – archwilir yr un cysyniad neu syniad drwy wahanol ddatganiadau o’r hyn sy’n bwysig
- helpu ein dysgwyr i wneud synnwyr o ystod o brofiadau, gwybodaeth a sgiliau fewn pob Maes gan sicrhau fod cynnwys yn helpu dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth resymegol o ystod o wybodaeth

Disgrifiadau dysgu

Yn ein hysgol, rydym yn defnyddio'r disgrifiadau dysgu fel offeryn cynllunio i lywio'r ystod eang o wybodaeth, sgiliau a phrofiadau o fewn ein cwricwlwm. Mae ein cwricwlwm hefyd yn defnyddio'r disgrifiadau dysgu i lywio cynllunio ar gyfer ystod o gyd-destunau ar gyfer dysgu ar draws cam cynnydd i greu dyfnder ac ehangder ar draws ein cwricwlwm.

Nid yw ein cwricwlwm yn defnyddio'r disgrifiadau dysgu i greu tasgau annibynnol, gweithgareddau, tasgau asesu neu adroddiadau dros dro i lunio barn am ddeilliannau ein dysgwyr ar adeg benodol ar y continwwm.

Cynnydd

Mae Cynnydd mewn dysgu yn broses o gynyddu dyfnder, soffistigeiddrwydd, ymgysylltiad a rheolaeth dysgwyr, yn hytrach na yn hytrach na chwmpasu corff o gynnwys. Nid yw cynnydd yn llinellol ac mae gwahanol ddysgwyr yn debygol o wneud cynnydd mewn gwahanol ffyrdd. Mae cynnydd wrth wraidd ein cynllun cwricwlwm. Wrth ddewis cynnwys ein cwricwlwm ac asesu rydym yn defnyddio'r egwyddorion cynnydd ar gyfer pob Maes i lywio ein dull gweithredu o ran cynnydd.

Rôl disgyblaethau o fewn ein cwricwlwm

Wrth i'n dysgwyr symud ymlaen drwy ein cwricwlwm, byddant yn cael mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â'r gwahanol ddisgyblaethau o fewn pob Maes ac i arbenigo ynddynt wrth iddynt gyrraedd y camau cynnydd diweddarach. Bydd dysgu ac addysgu disgyblaeth-benodol yn ein cwricwlwm yn sicrhau bod cysylltiadau priodol ac ystyrlon â dysgu yn cael eu gwneud ar draws ein cwricwlwm cyfan lle bo'n briodol.

Elfennau Mandadol y cwricwlwm

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) o fewn ein cwricwlwm yn cael ei gynllunio gan ddefnyddio'r Cod ACRh ac mae'n cael ei gynllunio mewn ffordd sydd yn briodol o ran datblygiad, yn gynhwysol a phlwraliaethol.

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)

Mae Crefydd Gwerthoedd a Moeseg (CGM) yn bwnc gorfodol ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau i ddysgwyr oed 3-16. Mae addysgu a dysgu yn CGM yn adlewyrchu'r ffaith bod traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn bennaf yn rhai Cristnogol ond gan ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru. Mae hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod ystod o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol hefyd yn cael eu dal yng Nghymru. Bwriedir i CGM alinio â gofynion gorfodol Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau. Nid oes hawl i dynnu'n ôl o CGM.

Sgiliau traws-gwricwlaidd

Credwn bod y sgiliau traws-gwricwlaidd mandadol, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn hanfodol i ddysgwyr er mwyn gallu cael mynediad at wybodaeth. Maen nhw'n galluogi dysgwyr i fanteisio ar ehangder ein cwricwlwm, gan roi iddyn nhw y sgiliau gydol oes i gyflawni'r pedwar diben. Y rhain yw'r sgiliau y gellir eu trosglwyddo i fyd gwaith, gan alluogi dysgwyr i addasu a ffynnu yn y byd sydd ohoni.

Mae ein cwricwlwm yn cael ei gynllunio mewn ffordd sydd yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau trawsgwricwlaidd ac estyn a chymhwyso'r rhain ar draws pob Maes.

Ar draws ein cwricwlwm bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i wneud y canlynol:

- Datblygu sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu
- Gallu defnyddio rhifau a datrys problemau mewn sefyllfaoedd go iawn
- Bod yn hyderus wrth ddefnyddio ystod o dechnolegau i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd

Byddwn yn defnyddio Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd Digidol i arwain ein hymagwedd at ddatblygiad y sgiliau trawsgwricwlaidd.

Themâu trawsgwricwlaidd

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)

Mae ein cwricwlwm yn cael ei gynllunio mewn ffordd sydd yn nodi ac yn gwneud cysylltiadau dilys ac ystyrlon rhwng dysgu o fewn Maes penodol a dysgu o fewn y Cod ACRh.

Hawliau Dynol

Credwn bod addysg hawliau dynol yn grymuso dysgwyr fel deiliaid hawliau. Mae hyn yn galluogi ein dysgwyr i archwilio eu hagweddau a'u hymddygiad eu hunain yn feirniadol ac i ddatblygu sgiliau i fod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd, sy'n gallu eirioli dros eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill.

Mae ein cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd i'n dysgwyr i wneud y canlynol:

- dysgu am hawliau dynol drwy ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau dynol a ffynonellau'r hawliau hynny. Mae hyn yn cynnwys datblygu eu dealltwriaeth o CCUHP a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.
- dysgu drwy hawliau dynol sy'n cefnogi ein dysgwyr i ddysgu am hawliau dynol sy'n cefnogi ein dysgwyr i ddatblygu gwerthoedd, agweddau ac ymddygiadau sy'n adlewyrchu hawliau dynol.
- dysgu ar gyfer hawliau dynol sy'n eu cymell ei weithredu'n gymdeithasol a grymuso dinasyddiaeth weithredol i hyrwyddo parch at hawliau pawb.

Amrywiaeth

Rydym am i'n cwricwlwm adnabod a dathlu'r amrywiol grwpiau cymdeithasol a chymunedau yng nghymuned ein hysgol, y cymunedau rydym y neu gwasanaethu a chymdeithas yn ei chyfanrwydd. Rydym am i'n dysgwyr fod yn ymwybodol o nodweddion pobl eraill a'u trin â thrugaredd, empathi, dealltwriaeth a thegwch, er gwaethaf y nodweddion hynny. Wrth i ddysgwyr wneud cynnydd, dylen nhw ddod yn gynyddol ymwybodol o'r ystod o nodweddion penodol a all ddiffinio ein hunaniaeth, gan gynnwys rhyw, rhywedd, hil, crefydd, oedran, anabledd a rhywioldeb.

Mae ein cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd i'n dysgwyr wneud y canlynol:

- datblygu empathi a thrugaredd at eraill
- dathlu cefndiroedd, gwerthoedd a nodweddion amrywiol
- datblygu eu gwerthoedd eu hunain ac ymdeimlad o'u hunaniaeth
- meithrin dealltwriaeth o bobl â gwahanol gredoau a safbwyntiau
- herio stereoteipiau

Gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith (CWRE)

Credwn fod dysgu am CWRE yn hanfodol i ddatblygu sgiliau ar gyfer gwaith a bywyd.
Mae ein cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer Addysg a Phrofiadau Byd Gwaith sy'n ysbrydoli ein dysgwyr i wneud y canlynol:

- meithrin dealltwriaeth o ddiben byd gwaith iddyn nhw eu hunain ac i'r gymdeithas yn gyfan

- dod yn fwyfwy ymwybodol o'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael iddyn nhw, gan ehangu eu gorwelion
- datblygu'r agweddau a'r ymddygiadau sydd eu hangen i oresgyn rhwystrau i gyflogadwyedd, rheoli gyrfa a dysgu gydol oes gwerthfawrogi'r ystod gynyddol o gyfleoedd yn y gweithle lle mae gallu
- cyfathrebu yn Gymraeg yn bwysig ystyried cyfleoedd drwy amrywiaeth o brofiadau ystyrlon ym maes dysgu, gwaith ac entrepreneuriaethdatblygu gwydnwch a'r gallu i addasu mewn ymateb i heriau, dewisiadau a chyfrifoldebau gwaith a bywyd

Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol

Mae'r cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn darparu safbwyntiau allweddol i'n dysgwyr ac maen nhw o bwys penodol o ran cefnogi dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben.

Mae ein cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr i wneud y canlynol:

- ddatblygu dysgu drwy ystod o leoedd a digwyddiadau arwyddocaol
- creu cysylltiadau â chymunedau a sefydliadau lleol
- dysgu am gyfraniad a phrofiadau gwahanol unigolion sy'n llywio pob cyd-destun
- dysgu am amrywiaeth ddiwylliannol, gwerthoedd, hanes a thraddodiadau sy'n llywio pob cyd-destun
- deall y gwahanol hunaniaethau, hanes, diwylliannau, safbwyntiau a gwerthoedd sy'n llywio cymunedau a chymdeithasau
- cydnabod ac ymgysylltu â ffactorau, dylanwadau ac effeithiau (gan gynnwys effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol) yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- datblygu ymdeimlad dilys o gynefin, gan ddatblygu gwybodaeth am wahanol ddiwylliannau a hanes, a'u galluogi i feithrin ymdeimlad cryf o hunaniaeth unigol a deall sut y mae hyn yn cysylltu â dylanwadau ehangach ac wedi'u llywio ganddyn nhw
- manteisio ar hanesion a gwahanolrwydd ardal leol ysgol
- deall eu rôl fel dinasyddion a strwythurau'r llywodraeth sy'n effeithio arnyn nhw ym mhob cyd-destun
- archwilio, dadansoddi'n feirniadol ac ymateb i faterion cyfoes a heriau sy'n effeithio ar eu bywydau a bywydau pobl eraill drwy bob cyd-destun
- deall datblygu cynaliadwy, yr heriau a wynebir gan yr amgylchedd a chymdeithas a sut y gallan nhw ymgysylltu â'r materion hyn a gwneud gwahaniaeth gan gefnogi dinasyddiaeth gynaliadwy
- deall y Gymru gyfoes gan roi cyfleoedd i fyfyrio, deall a dadansoddi cymdeithas gyfoes a'r ffordd y mae'r dysgwyr yn ymgysylltu â hi
- adnabod etifeddiaeth ieithyddol a diwylliannol amrywiol Cymru a'i chysylltiadau y tu hwnt i Gymru
- adnabod sut y mae ein hieithoedd yn datgloi gwybodaeth am ein llenyddiaeth, ein daearyddiaeth a'n hanes a'u cysylltiadau y tu hwnt i Gymru
- adnabod y cysylltiadau rhwng cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan ddeall y ffordd y maen nhw'n dylanwadu ar ei gilydd yn barhaus
- defnyddio sgiliau dadansoddi beirniadol ym mhob cyd-destun, gan gydnabod agweddau cadarnhaol a heriol ar bob un ohonyn nhw

Dewis y dysgwr

Bydd ein cwricwlwm yn rhoi cyfle i ddysgwyr sy'n symud o flwyddyn 9 i flwyddyn 10 o fewn pob Maes. Ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn 10 a blwyddyn 11, bydd ein cwricwlwm yn sicrhau dysgu yn yr holl Feysydd er na fydd popeth o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer pob Maes yn cael sylw.

Cwricwlwm sy'n hygyrch i bawb

Wrth gynllunio ein cwricwlwm, byddwn yn sicrhau ei fod:

- yn addas ar gyfer oedran, gallu a dawn pob dysgwr
- yn ystyried anghenion dysgu ychwanegol (ADY) pob dysgwr, os o gwbl
- yn sicrhau dysgu ac addysgu eang a chytbwys ar gyfer pob dysgwr
- gwneud trefniadau ar gyfer asesu gallu a thueddfryd dysgwyr mewn perthynas â'r cwricwlwm perthnasol, ar fynediad i ysgol neu leoliad, i nodi'r camau nesaf yn eu dilyniant a'r dysgu a'r addysgu sydd eu hangen i gefnogi'r cynnydd hwnnw.

Cynefin

Bydd ein cwricwlwm yn meithrin balchder ac angerdd i'n dysgwyr eu hunain, cymuned ein hysgol, y gymuned ehangach a Chymru. Bydd ein cwricwlwm yn galluogi ein dysgwyr i archwilio a deall gwahanol hunaniaethau, tirweddau a'r hanesion sy'n dod at ei gilydd i ffurfio eu cynefin. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu ymdeimlad o'u hunaniaeth ac o hunaniaeth pobl eraill a gwneud cysylltiadau gyda phobl, lleoedd a hanes mewn lleoedd eraill yng Nghymru ac ar draws y byd.

Asesu

Mae asesu yn chwarae rhan sylfaenol wrth alluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd. Er mwyn i asesu fod yn effeithiol, rydym yn cydnabod bod partneriaethau rhwng ein hymarferwyr, ein dysgwyr a rhieni a gofalwyr yn bwysig.

Mae cynnydd mewn dysgu yn broses o ddatblygiad cynyddol mewn dyfnder, soffistigeiddrwydd, diddordeb a rheolaeth dysgwyr, yn hytrach na chorff o gynnwys i'w astudio. Nid yw cynnydd yn llinol ac mae dysgwyr gwahanol yn debygol o wneud cynnydd mewn ffyrdd gwahanol iawn. Dylai'r broses o gynllunio trefniadau asesu a'u rhoi ar waith, sy'n rhan o gwricwlwm ac arferion ystafell ddosbarth, gydnabod hyn a chaniatáu ar gyfer amrywiaeth o wyriadau, seibiannau ac amrywiadau o ran cyflymder taith y dysgwr.

Byddwn yn asesu pob dysgwr ar draws y continwwm 3 i16 yn seiliedig ar y cynnydd a fynegir yn ein cwricwlwm, yn seiliedig ar y cynnydd a fynegir yn ein cwricwlwm, ac yn y bwriadau dysgu a gynlluniwyd.

Mae'r ysgol yn gweithio ar ddatblygu systemau asesu sy'n ymgorffori rhinweddau gorau'r egwyddorion cynnydd uchod, gan ddatblygu asesu fel ac ar gyfer dysgu trwy ddatblygiad meini prawf llwyddiant sy'n modelu'r amcanion dysgu. Trwy hyn, sicrheir bod dysgwyr yn ran integredig o'r broses asesu, gyda mynediad a her perthnasol i bawb trwy'r gweithgareddau a'r gwersi.

Rôl gwahanol gyfranogwyr yn ein proses asesu

Arweinwyr
Bydd arweinwyr yn ein hysgol yn sefydlu diwylliant dysgu cadarn sy'n cefnogi ac yn herio ymarferwyr i alluogi dysgwyr i wneud cynnydd priodol. Dylid cyflawni hyn drwy:

- greu gweledigaeth glir ar gyfer cwricwlwm sy'n helpu dysgwyr i wireddu'r pedwar diben ac sy'n cefnogi cynnydd dysgwyr unigol
- creu amgylchedd sy'n meithrin yr wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i hyrwyddo llesiant dysgwyr
- creu amgylchedd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch o'r ddwy ochr, yn hytrach nag un sy'n canolbwyntio ar gydymffurfiaeth ac adrodd yn ôl
- galluogi ymarferwyr i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni eu rôl asesu yn effeithiol
- sicrhau y caiff cwricwlwm ei gynllunio, ei fabwysiadu, ei adolygu a'i ddiwygio gan gynnig cyfleoedd i ymarferwyr gynllunio dysgu pwrpasol sy'n diwallu anghenion pob dysgwr
- datblygu ac ymwreiddio prosesau a strwythurau sy'n galluogi ymarferwyr i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd
- sicrhau darlun clir o gynnydd dysgwyr yn yr ysgol neu'r lleoliad, a hwnnw'n ddarlun y mae pob ymarferydd yn ei ddeall – proses sy'n cynnwys deialog broffesiynol barhaus a rheolaidd ar gynnydd fel rhan o'r systemau i helpu ymarferwyr i hunanfyfyrio ac i lywio gwelliant
- sicrhau bod dealltwriaeth glir o gynnydd dysgwyr ar draws ysgolion a, lle mae'n briodol, lleoliadau, sy'n bwydo i mewn i drafodaethau ar gynnydd dysgwyr yn yr ysgol neu leoliad
- ystyried y ffordd orau o ddarparu her a chymorth ychwanegol i ddysgwyr, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid eraill

- annog ymgysylltu rhwng yr holl gyfranogwyr yn y broses dysgu ac addysgu er mwyn datblygu partneriaethau effeithiol
- sicrhau bod y gofynion statudol wedi'u bodloni ac y rhoddwyd sylw dyledus i'r canllawiau hyn ar gyfer asesu, a bod ymarferwyr yn ystyried hyn wrth gynllunio dysgu ac addysgu ac yn eu harferion dyddiol

Ymarferwyr

Bydd ymarferwyr yn ein hysgol yn cynllunio ar gyfer, a darparu, profiadau dysgu effeithiol sy'n briodol i oedran a datblygiad pob dysgwr unigol. Maen nhw'n cefnogi a herio dysgwyr yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd. Dylid cyflawni hyn drwy:

- fod yn glir ynghylch y dysgu a fwriedir a chynllunio profiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb yn unol â hynn
- helpu i hyrwyddo lles dysgwyr drwy arferion asesu
- rhannu dysgu a fwriedir gyda dysgwyr yn briodol
- gwerthuso dysgu, gan gynnwys drwy arsylwi, holi a thrafod
- defnyddio'r wybodaeth a geir o asesiadau parhaus i fyfyrio ar eu harferion eu hunain er mwyn llywio'r camau nesaf o ran yr addysgu a chynllunio ar gyfer dysgu
- rhoi adborth perthnasol a phenodol sy'n ennyn diddordeb dysgwyr, yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu, ac yn symud eu dysgu yn ei flaen
- annog dysgwyr i fyfyrio ar eu cynnydd a, lle mae'n briodol, eu hannog i ystyried sut y maen nhw wedi datblygu, pa brosesau dysgu y maen nhw wedi manteisio arnyn nhw a'r hyn y maen nhw wedi'i gyflawni
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion, a'u cefnogi i ddatblygu'r sgiliau perthnasol i wneud hyn yn effeithiol
- datblygu sgiliau dysgwyr o ran gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o adborth i symud eu dysgu yn ei flaen
- cynnwys rhieni a gofalwyr yn natblygiad a chynnydd dysgwr, gan gynnwys y dysgwr yn y ddeialog hon fwyfwy dros amser
- cymryd rhan mewn deialog gydag arweinwyr a chyd-ymarferwyr i sicrhau bod ganddyn nhw ddarlun clir o'r cynnydd sy'n cael ei wneud o fewn eu hysgol
- nodi unrhyw her ychwanegol neu gymorth y gall dysgwyr fod eu hangen, gan ymgysylltu â phartneriaid allanol lle mae angen

Dysgwyr

Bydd ein dysgwyr yn cyfrannu at y broses ddysgu a chymryd rhan ynddi, mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran a'u cyfnod datblygu. Bydd hyn yn helpu dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth, a'u cymhwyso mewn gwahanol gyddestunau. Wrth iddynt wneud cynnydd a chydag annibyniaeth gynyddol, dylai'r dysgwyr gael eu cefnogi a'u hannog i wneud y canlynol:

- ddeall ar ba gam y maen nhw'n eu dysgu a ble mae angen iddyn nhw fynd nesaf
- datblygu dealltwriaeth o sut y byddan nhw'n cyrraedd yno
- ymateb yn weithredol i adborth ar eu dysgu a datblygu agweddau cadarnhaol tuag at gael adborth, ymateb iddo a gweithredu arno fel rhan o'u dysgu
- adolygu eu cynnydd dysgu, a chyfleu hyn yn unigol a chydag eraill
- myfyrio ar eu taith ddysgu a datblygu cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain dros amser

Rhieni a gofalwyr

Mae gan rieni, gofalwyr rôl bwysig i'w chwarae a dylai ysgolion a lleoliadau ymgysylltu â nhw er mwyn iddyn nhw allu cefnogi cynnydd dysgwyr mewn ffordd briodol.
Byddwn yn annog a galluogi rhieni a gofalwyr i wneud y canlynol:

- ymgysylltu'n rheolaidd â'r ysgol neu'r lleoliad a'i hymarferwyr/ymarferwyr er mwyn deall a chefnogi cynnydd eu plentyn yn ei ddysgu
- rhannu gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol gyda'r ysgol neu'r lleoliad a'I hymarferwyr/ymarferwyr, a fydd yn cefnogi dysgu a chynnydd eu plentyn
- ymateb yn weithredol i wybodaeth a ddarperir am ddysgu eu plentyn ac, mewn cydweithrediad â'r ysgol neu'r lleoliad, gynllunio ffyrdd o gefnogi'r dysgu hwnnw o fewn a'r tu allan i'r ysgol neu'r lleoliad.

Partneriaid Allanol

Byddwn yn ymgysylltu â phartneriaid allanol i:

- helpu ymarferwyr i asesu a phennu anghenion dysgwyr y gall fod angen cymorth ychwanegol arnynt, ac yna eu helpu drwy ddarparu cyngor a chymorth. Gall hyn gynnwys cymorth addysgol arbenigol a chymorth gan asiantaethau eraill megis iechyd darparu gwybodaeth am gynnydd dysgu sydd wedi digwydd ar gyfer ein
- dysgwyr sydd efallai yn treulio eu hamser mewn cyd-destunau eraill.

Cefnogi ein dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd

Er mwyn cefnogi ein dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd, mae asesu'n barhaus yn rhan annatod o arfer dyddiol dosbarth mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu ac sy'n golygu nad yw'n ddim gwahanol i ddysgu.
Bydd ein harferion asesu yn nodi cryfderau pob dysgwr unigol, ei gyflawniadau, ei feysydd i'w datblygu a, lle y bo'n berthnasol, rhwystrau i ddysgu. Dylai ymarferwyr ddefnyddio'r dealltwriaeth hon, gan drafod â'r dysgwr, i benderfynu ar y camau nesaf sydd eu hangen i symud er mwyn datblygu'r dysgu, gan gynnwys unrhyw heriau ychwanegol a chymorth sydd ei angen.

Pennu cynnydd, dysgwyr unigol dros amser, llunio darlun ohono a myfyrio arno

Bydd ein hymarferwyr yn pennu'r cynnydd a wneir gan ein dysgwyr, a chofnodi hyn, lle mae'n briodol, er mwyn deall taith y dysgwr dros wahanol gyfnodau ac mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys meithrin dealltwriaeth o sut y mae dysgwr wedi dysgu, yn ogystal â'r hyn y mae wedi'i ddysgu ac yn gallu ei ddangos. Bydd myfyrio ar gynnydd dysgwr dros amser yn galluogi ein hymarferwyr i roi adborth a helpu i gynllunio ei ddysgu yn y dyfodol, gan gynnwys unrhyw ymyriadau, cymorth ychwanegol neu her y gall fod eu hangen. Dylai hyn gynnwys y camau nesaf uniongyrchol a'r amcanion a'r nodau tymor hwy y dylai'r dysgwr weithio tuag atyn nhw er mwyn ei helpu i barhau i symud ymlaen o ran ei ddysgu. Gellir defnyddio hyn hefyd fel sail ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â'n rhieni a gofalwyr.

Dulliau sy'n ein cefnogi i bennu cynnydd, dysgwyr unigol dros amser, llunio darlun ohono a myfyrio arno



Cyfathrebu â rhieni a gofalwy

Wrth gyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni a gofalwyr, rydym yn rhannu gwybodaeth am:

- y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud
- ei anghenion er mwyn gwneud cynnydd yn y dyfodol
- sut y gellir diwallu ei anghenion er mwyn gwneud cynnydd yn y dyfodol gartref
- eu llesiant cyffredinol yn yr ysgol

Asesiadau Darllen a rhifedd

Mae asesiadau personol ar-lein statudol yn rhan o'r trefniadau asesu ehangach ac maent wedi'u cynllunio i helpu'r ymarferydd a'r dysgwr i ddeall sut mae sgiliau darllen a rhifedd dysgwr yn datblygu, a beth ddylai'r camau nesaf fod.

Addysgeg

Bydd ein haddysgu yn dilyn y 12 egwyddor a nodir isod. Am ragor o wybodaeth gweler ein polisi addysgu a dysgu.

Yr egwyddorion addysgegol

Caiff y broses o gynllunio cwricwlwm ar gyfer pob dysgwr ei hategu gan deuddeg egwyddor addysgegol, sy'n datgan bod dysgu ac addysgu da yn:

- canolbwyntio'n gyson ar **ddibenion** cyffredinol y cwricwlwm
- rhoi **her** i'r holl ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy'n uchel, ond **o fewn eu cyrraedd**
- defnyddio cymysgedd o ddulliau sy'n cynnwys **addysgu uniongyrchol**
- defnyddio cymysgedd o ddulliau gan gynnwys y rheini sy'n **hybu sgiliau** datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl mewn modd beirniadol
- golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n **adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol** ac yn ennyn diddordeb
- creu **cyd-destunau dilys** ar gyfer dysgu
- dilyn **egwyddorion asesu ar gyfer dysgu**
- **ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd**
- atgyfnerthu yn rheolaidd y **sgiliau trawsgwricwlaidd**, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ac yn darparu cyfleoedd i'w hymarfer
- annog dysgwyr i **gymryd cyfrifoldeb cynyddol** am eu dysgu eu hunain
- hybu **datblygiad cymdeithasol ac emosiynol** a chydberthnasau cadarnhaol
- hybu **cydweithio**



Amlinelliad o'r hyn a wneir gyda'r clwstwr

Mae Ysgol Gymraeg Gwynllyw wedi gweithio'n agos gyda'i chlwstwr i gytuno ar set o brofiadau i ddisgyblion. Yn ogystal, mae trafodaethau wedi cychwyn ar geisio cysoni systemau asesu ar draws.

Camau nesaf

Bydd ein cwricwlwm a systemau asesu yn esblygu dros amser gyda gwerthuso ac ymateb rheoliadd.